Ysgol Gyfun Cwm Rhondda
Heol Graigwen
Cymer
Porth
Rhondda Cynon Taf
CF39 9HA

Ffôn: 01443680800 Ebost: swyddfa@ygcwmrhondda.cymru

Mai 22 2020

At ddisgyblion a rhieni/gwarcheidwaid Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

Ar ddiwedd hanner tymor prysur a chynhyrchiol arall, dim ond gair i ddymuno gwyliau hanner tymor da i chi gyd. Rydym yn gobeithio y cewch chi i gyd fel teuluoedd gyfle i ymlacio a mwynhau amser gyda'ch gilydd. Mawr obeithiwn hefyd eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Mae hwn yn parhau'n gyfnod anghyfarwydd ac anghyffredin i ni gyd fel cymuned ysgol ac mae'r cydweithio sydd wedi bod rhyngom ni a'n teuluoedd wedi bod yn amhrisadwy i bob un ohonom yn ystod y cyfnod yma . Yn ystod yr wythnosau diwethaf rydym wedi mwynhau cael y cyfle i sgwrsio ar y ffôn gyda chi ddisgyblion a'ch teuluoedd ac rydym yn falch iawn o'ch ymdrechion, eich dyfalbarhâd a'ch gwaith wrth ymgyfarwyddo gyda ffordd newydd o ddysgu a rhyngweithio gyda'ch athrawon. Mae'r berthynas sydd gennym gyda chi yn hynod bwysig i bob un ohonom, ac edrychwn ymlaen at barhau gyda'r cyswllt gwerthfawr hwn yr hanner tymor nesaf eto.

Dysgu o Bell

Diolch i chi am ein cefnogi yn ystod y cyfnod hwn o weithredu fel sefydliad sy'n Addysgu o Bell; tasg wahanol i ni gyd fel disgyblion, athrawon a rhieni. Diolch i chi am fod yn weithredol yn y broses o gefnogi dysgu eich plentyn ac am sicrhau'i fod yn manteiso ar y llu o wersi ac adnoddau sydd i'w cael o fewn 'Google Classrooms ' ar wefan Hwb.

Gan ei fod yn gyfnod o wyliau swyddogol, does dim disgwyl i'ch plentyn gyflanwi gwaith yn ddyddiol gan ei fod yn bwysig cael saib a gorffwys ar ôl hanner tymor arall o waith.

Fe fydd gwersi swyddogol yn ail ddechrau ddydd **Llun, Mehefin 1af,** ac fe fydd yna ddarpariaeth ac adnoddau newydd wedi'u llwytho i Google Classroooms ar lwyfan Hwb erbyn y dyddiad hwn. Os nad ydych wedi eisoes, cais caredig i chi ymgyfarwyddo gyda'r amserlenni dysgu o bell sydd i'w cael ar wefan yr ysgol.

Mae yna groeso i unrhyw un sydd yn cael unrhyw drafferth gyda mewngofnodi i Hwb gysylltu yn y dull arferol, a hynny trwy gysylltu drwy ebost gydag Arweinydd Blwyddyn eich plentyn, neu drwy ffonio'r ysgol ar y rhif arferol.

Darpariaeth Gofal Plant

Fel y gwyddoch, mae darpariaeth gofal plant wedi bod ar gael mewn 7 Hwb ar draws RhCT ar gyfer plant i weithwyr allweddol hyd yn hyn. Diolch i chi am gydweithio gyda ni drwy ddilyn y prosesau priodol ar gyfer sicrhau'r ddarpariaeth hon.

Ysgol Gyfun Cwm Rhondda
Heol Graigwen
Cymer
Porth
Rhondda Cynon Taf
CF39 9HA

Ffôn: 01443680800 Ebost: swyddfa@ygcwmrhondda.cymru

O **Fehefin 1af**, bydd yna ddarpariaeth gofal brys cyfrwng Cymraeg ar gael i ddisgyblion Clwstwr ysgolion Cymraeg Cwm Rhondda mewn Hwb newydd sbon yn **Ysgol Gynradd Gymraeg Llynyforwyn, Glynrhedyn**. Gofynnwn i rieni wneud y trefniadau cofrestru arferol er mwyn sicrhau darpariaeth gofal plant i'ch plentyn yn yr Hwb newydd yma. Mae yna groeso i chi gysylltu â ni i drafod ymhellach os oes angen mwy o wybodaeth arnoch.

Cofiwch, y lle mwyaf diogel ar gyfer eich plentyn yn ystod y cyfnod hwn yw adref ac rydym yn ddiolchgar i chi am sicrhau hyn.

Ga' i fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i staff yr ysgol sydd wedi gwirfoddoli i weithio yn yr ysgolion Hwb yn ystod gwyliau'r Sulgwyn. Mae disgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhondda yn ffodus iawn o'u cefnogaeth a'u hymrwymiad parhaus.

Bydd yn chwithig iawn i lawer ohonom y Sulgwyn hwn am na fyddwn yn gwneud y daith flynyddol arferol i gefnogi ein disgyblion talentog yn Eisteddfod yr Urdd. Ond edrychwn ymlaen at fedru gwneud hyn eto yn y dyfodol. Yn y cyfamser, beth am fwynhau darpariaeth Eisteddfod T ar S4C a BBC Radio Cymru?

Mae cymuned Cwm Rhondda yn un gref ac rwy'n hyderus y byddwn yn parhau i gefnogi ein gilydd ac yn parhau i estyn llaw i bobl o'n cwmpas yn ystod y cyfnod nesaf hwn. Unwaith y byddwn yn derbyn gwybodaeth ynglŷn ag ailagor ysgolion, byddwn yn cysylltu â chi yn ddiymdroi.

Dymunwn hanner tymor hapus i chi gyd. Gofalwch am eich gilydd a chadwch yn ddiogel. Cofiwch fod yna groeso i chi gysylltu â'r ysgol os ydych yn dymuno cyngor neu arweiniad.

Rydym yma i'ch cefnogi.

Yn ddiffuant,

Elise Jones

(Pennaeth Dros Dro).